Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

Meithrinfa a Mwy Ysgol Pen-y-Bryn

Meithrinfa a Mwy
Ysgol Pen-y-Bryn
Rhodfa Wentworth
Bae Colwyn
LL29 6DD

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/01/2020

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Graddau	Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu
Rhagorol	Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa a Mwy, Ysgol Pen-y-Bryn, Bae Colwyn, wedi'i chofrestru i ofalu am hyd at 19 o blant ar unrhyw un adeg, ac mae'n cynnig lleoedd i blant rhwng tair a phedair oed sy'n mynd i Ysgol Pen-y-Bryn. Corff Llywodraeth Ysgol Pen-y-Bryn sy'n rhedeg y gwasanaeth, sydd wedi enwebu Tabitha Sawyer fel yr unigolyn cyfrifol ar ei ran ac wedi penodi Andrea Baron fel y person â chyfrifoldeb am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 08:00pm a 15:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod tymor yr ysgol. Nid yw'r gwasanaeth yn darparu 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg; Saesneg yw iaith weithredol y gwasanaeth.

Crynodeb

Thema	Gradd
Llesiant	Da
Gofal a Datblygiad	Da
Yr Amgylchedd	Da
Arwain a Rheoli	Da

1. Asesiad cyffredinol

Caiff y plant yn y gwasanaeth hwn eu hannog yn gadarnhaol i wneud dewisiadau a phenderfyniadau'n annibynnol. Maent wedi setlo, yn fodlon eu byd ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd. Mae'r staff yn hybu iechyd a llesiant y plant yn dda ac yn deall sut i ddiwallu eu hanghenion unigol yn llwyddiannus. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n ddiogel ac sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Roedd yr arweinwyr yn drefnus, ac roedd ganddynt weledigaeth glir ar gyfer eu gwasanaeth a'i ddyfodol. Maent yn ymrwymedig i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'r rhieni a'r ysgol er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plant.

2. Gwelliannau

Er mai hwn yw'r arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth ailgofrestru, mae gwelliannau eisoes wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â'r gwaith papur a'r ddarpariaeth chwarae awyr agored ac mae'r plant yn cael budd ohonynt.

3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â gofal a datblygiad, a'r gwaith o ddatblygu dewisiadau bwyd maethlon yn y dyfodol; rheoli heintiau a gwella arweinyddiaeth ac arferion

cyfredol, a rheoli mewn perthynas â pha mor aml y dylid gofyn am adborth gan rieni er mwyn helpu i lywio'r adroddiad ar ansawdd y gofal.

1. Llesiant Da

Crynodeb

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac wedi setlo. Maent yn cyfleu eu dewisiadau'n agored ac yn cyfrannu eu syniadau at bynciau. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i ffrindiau ac â'r staff, gan ddatblygu hunan-barch cadarnhaol a hyder o ganlyniad i hynny. Mae'r plant yn egnïol ac yn chwilfrydig. Maent yn chwarae'n ddychmygus, yn cael hwyl ac yn teimlo gwefr a rhyfeddod wrth iddynt wynebu profiadau newydd a chyffrous. Maent yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth a defnyddio eu sgiliau.

Ein canfyddiadau

Roedd y plant yn cadw'n brysur yn barhaus drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis drwy gydol y sesiwn, a phob un ohonynt yn dod o hyd i ardal chwarae a oedd yn ennyn a chynnal eu diddordeb. Roedd y plant yn gwybod pa opsiynau oedd ar gael iddynt ac yn symud yn fodlon rhwng pob un, gyda rhai o'r plant yn dewis chwarae dan do tra bod eraill yn chwarae yn yr awyr agored, gan symud yn ddirwystr rhwng y ddwy ardal. Mae llais y plant wrth wraidd y gwasanaeth hwn, wrth i syniadau'r plant gael eu casglu a'u gwireddu yn yr ardal chwarae rôl. Mae'r staff yn gwrando arnynt ac mae'r plant yn mynegi eu barn am yr hyn yr hoffent ei wneud yn dda.

Roedd y plant yn gyfarwydd â threfn y gwasanaeth, a oedd yn sicrhau eu bod wedi setlo, wedi ymlacio ac yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt. Roeddent yn barod i fynd at y staff a'u ffrindiau, a'u gwahodd i ymuno â'r chwarae drwy drafod ac awgrymiadau chwarae. Clywsom y plant yn helpu ei gilydd i ddysgu sgiliau newydd ac yn dathlu cyflawniadau ei gilydd. Er enghraifft, wrth ddysgu sut i ddefnyddio gemau newydd ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Roedd y plant yn gwrando ac yn cydweithredu'n dda â'r staff. Roeddent yn gofalu am y cyfarpar a'r adnoddau yn briodol, ac yn cydweithio i dacluso pan gafodd cloch ei chanu i nodi diwedd pob cyfnod chwarae. Roedd y plant yn fedrus wrth fod yn hunanddisgybledig, ac roeddent yn cymryd eu tro yn llwyddiannus heb fod angen arweiniad arnynt gan y staff. Roedd y plant yn amlwg yn mwynhau cwmni ei gilydd, wrth iddynt sgwrsio'n hapus â'i gilydd wrth chwarae a rhyngweithio'n gwrtais â ni a'r staff a oedd yn gofalu amdanynt.

Roedd y plant yn cael cyfnodau estynedig o chwarae di-dor sy'n cael eu dechrau gan y plant, yn ogystal â chyfleoedd rheolaidd i'r oedolion arwain gweithgareddau. Roedd y plant yn dangos cyffro wrth archwilio'r iâ yn annibynnol yn yr hambwrdd darganfod â thema ‘Gŵyl y Gaeaf’, ac roeddent yn amlwg wedi'u syfrdanu pan gawsant eu tywys i'r awyr agored i weld egin y bylbiau roeddent wedi'u plannu yn tyfu drwy'r pridd yn y plannwr.

Roedd y plant yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth ac i ddefnyddio eu sgiliau, er enghraifft, wrth gyfrif y cwpanau allan o'r cwpwrdd i baratoi ar gyfer amser byrbryd. Roeddent yn hongian eu cotiau'n annibynnol ac yn casglu eu bagiau a'u heiddo ar ddiwedd y sesiwn. Roeddent yn hyderus i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac yn cael

canmoliaeth a brwdfrydedd gan y staff yn rheolaidd pan fyddant yn llwyddo i gyflawni tasgau'n annibynnol.

2. Gofal a Datblygiad Da

Crynodeb

Mae'r staff yn brofiadol ac yn sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu dilyn er mwyn llwyddo i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi o'u hamser i wrando ar y plant ac maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â nhw, gan fodelu ymddygiadau a disgwyliadau cadarnhaol. Mae'r staff yn trefnu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae cyffrous ar gyfer y plant sy'n annog eu datblygiad cyffredinol. Mae'r staff yn adnabod y plant y maent yn gofalu amdanynt yn dda ac yn deall eu hanghenion unigol.

Ein canfyddiadau

Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Roedd pob un ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein yn ddiweddar mewn perthynas â diogelu, ac roedd gan bob un ohonynt dystysgrif cofnod troseddol manwl yn dangos eu bod yn addas i weithio gyda phlant. Roeddent yn dilyn gweithdrefnau yn addas er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn aros yn lân, yn hylan ac yn ddiogel. Roeddent yn hyrwyddo arferion hylendid da ymhlith plant, gan sicrhau eu bod yn golchi eu dwylo cyn iddynt fwyta, ac roeddent yn cadw cofnod o'r gwaith glanhau a gwblhawyd bob dydd. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd arweinwyr wedi cwblhau archwiliad o weithdrefnau rheoli heintiau yn y gwasanaeth eto er mwyn sicrhau bod y canllawiau arferion gorau yn cael eu dilyn. Roedd yr aelod o staff a oedd yn paratoi byrbryd y plant wedi cwblhau ei hyfforddiant hylendid bwyd Lefel 2 ac wedi sicrhau bod gweithdrefnau addas yn cael eu dilyn i gynnal hylendid, er enghraifft gwisgo ffedog a glanhau'r byrddau ar ôl eu defnyddio. Roedd y staff yn ymwybodol bod angen hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Roedd y dewisiadau bwyd yn faethlon ac yn cynnwys amrywiaeth o ddarnau o ffrwythau, megis afal a banana, gyda llefrith i'w yfed. Nid oes bwydlen o fyrbrydau ar hyn o bryd. Drwy osod gweithgareddau yn yr awyr agored, roedd y staff yn annog y plant i dreulio amser yn yr awyr iach.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelwch tân a chodi a chario, ac roedd ymarferion gwagio'r adeilad pe bai tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n fanwl. Roedd y cyfarpar diogelwch tân wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd yn hygyrch.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf ac roeddent yn hyderus i'w roi yn ôl yr angen. Roeddent yn cofnodi damweiniau a'r driniaeth a roddwyd yn fanwl, gan roi copi i'r rhieni er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr holl wybodaeth. Mae'n bolisi gan y gwasanaeth i beidio â rhoi meddyginiaeth i'r plant oni bai bod ganddynt gyflwr meddygol penodol, er enghraifft alergeddau. Nid oedd gan yr un plentyn yn y gwasanaeth unrhyw alergeddau penodol ar adeg yr arolygiad hwn.

Roedd y staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn gweithio yn unol â hynny. Roeddent yn llwyddo i greu ethos cadarnhaol lle roedd ymdeimlad o hwyl yn cael ei feithrin rhyngddyn nhw a'r plant. Roeddent yn modelu ymddygiadau cadarnhaol i'r plant, gan siarad yn dawel ac yn bwyllog â nhw a gwenu'n rheolaidd. Gwnaethant roi o'u hamser i siarad a gwrando ar y plant, a oedd yn annog meithrin cydberthnasau ymddiriedus. Roeddent yn parchu

dewisiadau'r plant, er enghraifft pan nad oedd plentyn am ddefnyddio'r llechen i dynnu llun o'i waith. Roeddent yn canmol ymdrechion y plant yn rheolaidd gan ddweud ‘wow’ a ‘da iawn!’, ac roeddent yn dathlu eu cyflawniadau.

Mae'r staff yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau difyr a chyffrous sy'n seiliedig ar chwarae, sy'n helpu'r plant i ddatblygu. Maent yn deall anghenion datblygu'r plant ac yn cynnig cyfleoedd addas er mwyn iddynt lwyddo. Er enghraifft, roeddent yn cydnabod bod y plant yn mwynhau'r ceir a'r trenau, a gwnaethant gyflwyno traciau ffordd ar ffurf rhifolion er mwyn annog y plant i adnabod y rhif a'r ffurfiant wrth iddynt chwarae. Mae'r staff yn sicrhau bod y gwaith o gynllunio gweithgareddau'n hyblyg ac maent yn deall gwerth y plant yn arwain eu dysgu. Mae'r staff yn cofnodi cynnydd y plant drwy ffotograffau ac maent yn cydweithio ag athro'r dosbarth meithrin i ddangos tystiolaeth o'u datblygiad.

3. Yr Amgylchedd Da

Crynodeb

Mae'r plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel sy'n diwallu eu hanghenion, gan ei fod yn canolbwyntio ar y plentyn ar y cyfan. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith ac mae'r staff yn eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw risgiau diangen yn cael eu nodi a'u dileu cymaint â phosibl. Mae'r arweinwyr a'r staff yn darparu amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar sy'n briodol i oedran y plant, ac sydd mewn cyflwr da.

Ein canfyddiadau

Roedd yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd y prif ddrws i'r gwasanaeth yn ddiogel rhag mynediad diawdurdod ac roedd yr ardal awyr agored amgaeedig yn galluogi'r plant i chwarae'n ddiogel yn yr awyr agored. Roedd asesiadau risg ar waith ac roeddent yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Roedd y staff yn cwblhau gwiriadau diogelwch ychwanegol ac roedd unrhyw ganfyddiadau'n cael eu cofnodi yn y dyddiadur dyddiol, er enghraifft *'broken rake removed from the sand tray'.* Prin oedd y cyfleoedd yn y gwasanaeth i'r plant gymryd risgiau derbyniol. Fodd bynnag, dywedodd y Person â chyfrifoldeb wrthym fod ardaloedd eraill ar dir yr ysgol ar gael iddynt a bod y gwasanaeth yn eu defnyddio, a oedd yn cynnig y cyfleoedd hyn i'r plant. Er enghraifft, yr ardal rhannau rhydd wrth ymyl y gwasanaeth. Roedd y safle mewn cyflwr da a chafwyd adborth cadarnhaol gan y rhieni mewn perthynas â glendid y safle fel rhan o'r adroddiad ar ansawdd y gofal Roedd waliau'r gwasanaeth wedi'u haddurno ag arddangosfeydd lliwgar a oedd yn rhoi naws groesawgar i'r amgylchedd. Roedd gan bob plentyn ei fachyn cot personol gyda ffotograff a'i waith celf olion bysedd yn golygu ei fod yn hawdd ei adnabod. Roedd hyn yn annog annibyniaeth y plant wrth iddynt gael eu gweld yn casglu eu heiddo yn annibynnol ar ddiwedd y sesiwn ac yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt yn yr amgylchedd.

Mae gan y plant ddigon o le chwarae sy'n cynnig cydbwysedd cadarnhaol o arwynebedd llawr agored, yr oedd y plant yn ei ddefnyddio'n dda gan adeiladu trac trên hir, ac roedd byrddau a chadeiriau sy'n addas i faint y plant ar gael ar gyfer gweithgareddau pen bwrdd. Roedd storfeydd lefel isel ym mhob rhan o'r gwasanaeth yn golygu bod yr amgylchedd yn groesawgar i'r plant ac yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae iddynt. Roedd drws a oedd yn arwain yn uniongyrchol o'r brif ystafell chwarae i'r ardal awyr agored yn sicrhau y gallai'r plant ddefnyddio pob ardal chwarae yn annibynnol ac yn hawdd. Roedd yr arweinwyr yn darparu amrywiaeth o brofiadau synhwyraidd i'r plant, gyda darnau ewyn, satin a phapur wedi'i rwygo, gan gynnig gweadau gwahanol i'r hambwrdd darganfod gydag iâ a dŵr yn cynnig amrywiaeth mewn tymheredd, ac yn yr ardal awyr agored roedd offerynnau cerdd ar gael yn hawdd i'r plant. Roedd yr holl adnoddau a ddefnyddir gan y plant mewn cyflwr da ac yn addas ar gyfer eu hoedran i'w galluogi i chwarae gyda'i gilydd, os oeddent yn dewis gwneud hynny.

4. Arwain a Rheoli Da

Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac maent yn mynd ati'n effeithiol i sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni'r gofynion rheoliadol. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer eu gwasanaeth a chaiff y weledigaeth hon ei rhannu â'r staff yn llwyddiannus. Mae gweithdrefnau priodol ar waith er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r gwaith papur yn drefnus ac yn dangos tystiolaeth bod prosesau recriwtio diogel ar waith. Mae'r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau cadarnhaol â'r ysgol, athrawon dosbarth y plant a'u rhieni.

Ein canfyddiadau

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer eu gwasanaeth, ac maent yn rhannu'r weledigaeth hon ag eraill yn effeithiol drwy eu datganiad o ddiben. Mae'r datganiad o ddiben yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, ac mae newidiadau i'r gwasanaeth yn cael ei nodi'n fanwl. Mae'r arweinwyr yn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol ac maent wedi llwyddo i gael cyllid grant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn rheolaidd. Cynhaliwyd arfarniadau blynyddol i roi cyfle i'r staff siarad â'r arweinwyr am eu gwaith a nodi eu hanghenion hyfforddi. Nid oedd y person â chyfrifoldeb wedi cael arfarniad blynyddol eto eleni. Fodd bynnag, trafodwyd y mater hwn â'r unigolyn cyfrifol ac roedd yr arfarniad blynyddol yn cael ei drefnu. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym ei bod yn teimlo ei bod yn cael ei chefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol, a bod canllawiau a chyngor ar gael i'r athrawon dosbarth os oedd angen. Roedd yr arweinwyr a'r staff yn adnabod ei gilydd yn dda ac yn cydweithio â'i gilydd yn ddi-dor er mwyn sicrhau bod y sesiwn yn rhedeg yn ddidrafferth a bod arferion diogel yn cael eu cynnal.

Roedd systemau effeithiol ar waith i gasglu safbwyntiau'r rhieni am y gwasanaeth; roedd y rhain yn cynnwys holiadur blynyddol a slipiau adborth ar ddiwedd adroddiadau cynnydd y plant ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, dosbarthwyd y ddwy ddogfen i'r rhieni ym mis Gorffennaf, ac felly nid oedd yn casglu safbwyntiau na barn y rhieni am y gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae'n bosibl y bydd casglu barn y rhieni yng nghanol y flwyddyn yn fuddiol er mwyn llywio gwelliannau pellach i'r gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod nifer addas o staff cymwys a phrofiadol ar gael i ofalu am y plant drwy'r wythnos. Roedd ffeiliau'r staff yn dangos tystiolaeth bod diogelu wrth wraidd y broses recriwtio ymarferwyr a bod prosesau recriwtio diogel ar waith.

Roedd cofnodion y plant yn dangos bod yr arweinwyr wedi gweithio gyda'r rhieni i nodi anghenion unigol y plant cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth, ac roedd yr holl ddogfennaeth angenrheidiol yn gyfredol ac wedi'i chwblhau. Roedd yr arweinwyr yn cydweithio â staff yr ysgol er mwyn sicrhau bod partneriaethau cadarnhaol yn cael eu meithrin er budd datblygiad cyffredinol y plant. Roedd y rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a gweithgareddau yn y gwasanaeth drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys hysbysfwrdd, llyfrau cyfathrebu gwasanaeth yn y cartref a thrwy

dudalen y gwasanaeth ar wefan yr ysgol. Roedd llythyron a chardiau oddi wrth rieni yn diolch i'r staff yn dangos bod nifer o'r rhieni'n fodlon ar y gofal a roddir i'w plentyn.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y gallai'r arweinwyr wneud y canlynol:

- cael copi o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Fwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant er mwyn gwella dewisiadau byrbryd y plant ymhellach.
- cael copi o Adnodd (Archwilio) Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant a Lleoliadau Addysg yng Nghymru (2019) er mwyn gwella gweithdrefnau rheoli heintiau cyfredol ymhellach;
- ystyried adolygu pryd y dylid gofyn am farn rhieni am y gwasanaeth i gynnwys rhywfaint o adborth yng nghanol y flwyddyn.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad ôl-gofrestru dirybudd llawn, a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 08 Ionawr 2020 rhwng 09:05 a 13:30.

Gwnaethom y canlynol:

- Arolygu amrywiaeth o ddogfennaeth, gan gynnwys asesiadau risg, polisïau a gweithdrefnau, cofrestri, ffeiliau tri aelod o'r staff a ffeiliau pedwar plentyn;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant, y staff, y person â chyfrifoldeb a'r unigolyn cyfrifol;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant;
- rhoi adborth i'r person cofrestredig, y person â chyfrifoldeb ac aelod o'r staff ar y diwrnod.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	**Gofal Dydd Plant** **Gofal Dydd Llawn**
Unigolyn Cyfrifol	**Tabitha Sawyer**
Person â chyfrifoldeb	**Andrea Baron**
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	**19**
Ystod oedran y plant	**3 – 4 oed**
Oriau agor	**08:00 – 15:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol**
Iaith weithredol y gwasanaeth	**Saesneg**
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	**Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru.**
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	**08 Ionawr 2020**
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	**Nac ydy**
A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?	**Nac ydy**
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	**Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.**
Gwybodaeth Ychwanegol:	

Dyddiad Cyhoeddi 30/07/2020